Llyfr Llafar gyda chôd QR

# Stiwpendo Fach ar Garlam eto

Jon Blake



Addasiad Wil Morus Jones

Ar Wib

*Argraffiad cyntaf – 2005*

ISBN 1 84323 474 2

Cyhoeddwyd gyntaf ym Mhrydain gan
Walker Books Ltd., 87 Vauxhall Walk,
Llundain SE11 5HJ dan y teitl *Little Stupendo Rides Again*

Ⓗ testun: Jon Blake, 1999 ©
Ⓗ lluniau: Martin Chatterton, 1999 ©
Ⓗ testun Cymraeg: ACCAC, 2005 ©

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio nac fel arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan y cyhoeddwyr, Gwasg Gomer, Llandysul, Ceredigion.

Dymuna'r cyhoeddwyr gydnabod cymorth
Adrannau Cyngor Llyfrau Cymru.


Cyhoeddwyd gyda chymorth ariannol
Awdurdod Cymwysterau Cwricwlwm ac Asesu Cymru.

*Argraffwyd gan*
*Wasg Gomer, Llandysul, Ceredigion SA44 4JL*

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Pennod 1 | 9 |
| Pennod 2 | 17 |
| Pennod 3 | 22 |
| Pennod 4 | 27 |
| Pennod 5 | 34 |
| Pennod 6 | 38 |


# Pennod 1



Roedd hi wedi bod yn flwyddyn ardderchog i'r Stiwpendos. Erbyn hyn Stiwpendo Fach a'i thad, Stiwpendo Mawr, oedd styntwyr dwbl gorau'r byd. Doedd pobl ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl pan oedd y Stiwpendos yn eu hardal.


Roedd Stiwpendo
Mawr wedi neidio
dros ddwy ar
bymtheg o
siediau gardd
mewn cerbyd roced . . .







wedi hedfan
dros Begwn y
Gogledd yn
sefyll ar ei
draed ar ben
awyren . . .

ac wedi plymio
oddi ar dŵr
uchaf Castell
Coch i bwll
nofio plastig.




Roedd Stiwpendo
Fach wedi neidio
dros ddeuddeg o
welyau dwbl ar ei
beic modur . . .





wedi nofio
mewn
cefnfor gyda
siarc oedd
yn llyncu
pobl . . .

ac wedi sgïo i lawr
Yr Wyddfa, mynydd
uchaf Cymru.





Bob tro y byddai Stiwpendo Mawr yn ymddangos, byddai pawb yn cymeradwyo.



Ond, bob tro y byddai Stiwpendo Fach yn ymddangos, byddai pawb yn cymeradwyo mor uchel nes bod rhai pobl yn credu bod yna ddaeargryn.



Bob tro y byddai sioe y Stiwpendos yn dod i ben, byddai rhes hir o bobl yn aros am lofnod Stiwpendo Mawr.



Ond byddai'r rhes o bobl oedd yn aros am Stiwpendo Fach mor hir nes ei bod yn ymestyn allan o'r dref ac i'r dref nesaf.

Roedd Stiwpendo Mawr wedi cael llond bol ar hyn, yn ôl y sôn. Ond bob tro y byddai'n cwyno, byddai Stiwpendo Fach yn ei atgoffa o rywbeth.

'Peidiwch byth ag anghofio,' byddai'n dweud, 'fe achubais i eich bywyd unwaith.'



Ar ddiwedd y flwyddyn aeth y Stiwpendos ar daith aruthrol fawr o gwmpas y byd. Ond wedi hynny, diflastod. Doedd garddio, trefnu blodau neu gasglu stampiau yn apelio dim.

Yna, un diwrnod, gwelodd Stiwpendo Mawr hysbyseb.



‘Dyna’r union swydd i mi!’ meddai Stiwpendo Mawr.


‘Dyna’r union swydd i *ni,* chi’n feddwl!’ meddai Stiwpendo Fach.

Fe wridodd Stiwpendo Mawr braidd. ‘Ie, wrth gwrs,’ meddai, ‘dyna beth roeddwn i’n feddwl.’





## Pennod 2




Trannoeth, fe gyrhaeddodd y Stiwpendos STIWDIO FFATRI FFILM. Roedd e’n lle enfawr, cyffrous yn llawn pobl oedd yn adeiladu pethau, yn symud pethau ac yn strancio.

Dyma’r lle i mi, meddyliodd Stiwpendo Fach.



Roedd y prawf a gafodd y Stiwpendos mor hawdd ag y gallai fod. Roedd yn rhaid iddyn nhw reidio'r Wal Angau, cerdded ar hyd rhaff dynn uwchben llew llwglyd, a chwympo i lawr grisiau hanner cant a thair o weithiau. Cyn iddyn nhw orffen, hyd yn oed, roedd y styntwyr eraill wedi mynd adref yn ddigalon. Roedd y Stiwpendos yn filwaith gwell na nhw.



Daeth yr amser i gwrdd â Penri Penrhiwceibr, y cyfarwyddwr.

Roedd Penri Penrhiwceibr yn gwisgo sbectol oedd yn debyg i ddrychau, ac roedd yn cnoi un paced o greision ar ôl y llall.



'Fe gewch chi fy ngalw i'n Penri,' meddai.

'Fe gei di fy ngalw Yr Un Mawr,' atebodd Stiwpendo Mawr.

'Pryd allwch chi ddechrau?' gofynnodd Penri.

'Nawr!' meddai Stiwpendo Fach.

Doedd Stiwpendo Mawr ddim yn rhy siŵr. 'Beth yn union ydy testun y ffilm yma?' gofynnodd.

Chwythodd Penri Penrhiwceibr y paced creision yn belen gron, ac yna . . .




'Dyna beth ydy'r testun!' meddai. 'Clec, Clatsh, Clep, Clap! Ffrwydradau mawr! O ie, a dau berson yn cwympo mewn cariad.'

Fe dynnodd Stiwpendo Mawr ei law dros ei ên yn feddylgar. 'Hmm,' meddai. 'Dydy'r ffilm hon ddim yn swnio'n addas o gwbl ar gyfer merch ifanc.'


'Mae'n swnio'n berffaith!' gwaeddodd Stiwpendo Fach.

'A pheth arall,' meddai Stiwpendo Mawr, 'mae gan Stiwpendo Fach lawer o waith cartref i'w wneud.'

'O, nac oes!' gwaeddodd Stiwpendo Fach.

Ond dewisodd Penri gredu Stiwpendo Mawr. 'Mae'n amlwg eich bod yn pryderu am eich merch,' meddai, 'felly wna i mo'i defnyddio hi yn y ffilm.'

# Pennod 3



Trwy gydol yr wythnos ganlynol, bu Stiwpendo Mawr yn ymarfer ei gampau ar gyfer y ffilm. Fe ddefnyddiodd y cadeiriau, y soffa a bwrdd y gegin. Fe neidiodd allan o ffenestr hyd yn oed, gan lanio ar wely Stiwpendo Fach.

Yn y cyfamser, fe bwdodd Stiwpendo Fach. 'Dydy e ddim yn deg,' meddai.


Roedd Stiwpendo Fach â'i phen yn ei phlu. Roedd hi'n gwrthod cysgu. Roedd hi'n gwrthod bwyta. Roedd hi'n gwrthod reidio ei beic modur hyd yn oed.

Fe benderfynodd Stiwpendo Mawr ei bod yn well iddo geisio codi'i chalon.




'Mae gen i syrpreis i ti!' meddai un diwrnod.

'Beth ydy e?' gofynnodd Stiwpendo Fach dan fwmian.




'Dere gyda fi,' meddai Stiwpendo Mawr, 'ac fe wna i ddangos i ti!'

Fe reidiodd y ddau Stiwpendo allan o'r dref. Fe ddechreuodd Stiwpendo Fach deimlo'n gyffrous. Tybed ai jet-sgi oedd e? meddyliodd yn dawel fach. Neu gleider-hongian?

Ond doedden nhw ddim yn mynd i gyfeiriad y siopau. Na'r traeth. Roedden nhw'n mynd i'r wlad.

Yn sydyn, fe arhosodd Stiwpendo Mawr yn ymyl cae. Yn y cae yma roedd hen geffyl.

'Dyna ti!' meddai. 'Dyna dy syrpreis di, Stiwpendo Fach!'



Edrychodd Stiwpendo Fach mewn syndod ar y ceffyl.


'Ei henw ydy Eurwen Ryfeddol,' meddai Stiwpendo Mawr. 'Roedd hi'n arfer bod yn geffyl rasio enwog.'

Fe syllodd Stiwpendo Fach ar yr hen geffyl blinedig ac ochneidiodd. Yna edrychodd yn benderfynol iawn.

'Fe wna i dy hyfforddi di,' meddai, 'os taw dyna'r peth olaf i mi ei wneud.'




# Pennod 4




Doedd Stiwpendo Fach erioed wedi marchogaeth ceffyl. Ond doedd hynny'n poeni dim arni hi. Mae'n union fel reidio beic modur, meddyliodd, gyda choesau yn lle olwynion.

Fe ddringodd Stiwpendo Fach ar gefn Eurwen Ryfeddol. 'Cer!' gwaeddodd.




Fe gnôdd Eurwen Ryfeddol lond ceg arall o borfa, ffliciodd ychydig o glêr gyda'i chynffon, yna symudodd ling-di-long at lecyn o ddanadl poethion.

'Hmm,' meddai Stiwpendo Fach. 'Dw i byth yn cael y trafferth yma gyda'r beic modur.'


Fe fuodd Stiwpendo Fach yn ymarfer yr holl gampau yr oedd yn arfer eu gwneud ar ei beic.

Fe farchogodd Eurwen Ryfeddol wysg ei chefn,






ymlaen,





fel cowboi,




ar un ochr.

Fe safodd ar
un goes . . .





un llaw . . .



un benelin . . .



ac ar ei phen.


Ond doedd dim yn tycio; beth bynnag a wnâi roedd Eurwen Ryfeddol yn dal i symud ling-di-long.

'Dwi'n gwybod!' meddai Stiwpendo Fach. 'Does dim petrol ynddi hi.'

Fe aeth Stiwpendo Fach ag Eurwen Ryfeddol i garej betrol Dai Di-glem a'i harwain at y pwmp petrol.

'Llenwch hi, os gwelwch yn dda!' meddai.

Fe ddaeth Dai Di-glem mas o'r siop, yn cnoi pice ar y maen Mam-gu Maerdy. Roedd Dai Di-glem wedi drysu'n lân – doedd e erioed wedi gweld ceffyl wrth bwmp petrol o'r blaen.



'Ei llenwi gyda beth?' gofynnodd.

'Wn i ddim,' meddai Stiwpendo Fach. 'Pa fath o danwydd mae ceffylau'n ei ddefnyddio?'

Ac yna, y foment honno, bloeddiodd Dai Di-glem, yn uchel, 'O, fy mhice ar y maen Mam-gu Maerdy!'




Roedd Eurwen Ryfeddol wedi'u bwyta nhw.


'Dyna fe! Dyna'r ateb!' meddai Stiwpendo Fach. 'Pice ar y maen!'

Fe brynodd Stiwpendo Fach lond bag ohonyn nhw. Fe lyncodd Eurwen Ryfeddol nhw, un ar ôl y llall, heb adael un briwsionyn ar ôl.

Yna, fe ysgydwodd Stiwpendo Fach y ffrwyn. Aeth Eurwen Ryfeddol yn ôl clip-clop am y cae, yr un mor araf ag o'r blaen.



# Pennod 5



Ddydd ar ôl dydd, fe wnaeth Stiwpendo Fach ei gorau glas gydag Eurwen Ryfeddol. Ond, doedd dim a wnâi yn gwneud unrhyw wahaniaeth.

Roedd Stiwpendo Fach yn teimlo'n rhwystredig *iawn*.

Yn y cyfamser, roedd Stiwpendo Mawr yn cael amser bendigedig ac roedd wrth ei fodd. Bob nos, byddai'n dweud popeth wrth Stiwpendo Fach am y ffilm oedd ar waith ganddo.


'Fe ddylet ti fod wedi 'ngweld i!' meddai. Wedyn, fe neidiodd o gwmpas y tŷ yn disgrifio pob camp yr oedd wedi'i gwneud –




rowlio oddi ar do adeilad oedd ar dân . . .



ymaflyd codwm gyda chrocodeil ugain metr . . .



bwrw'i feic trwy wal o frics ffug.




'A nawr,' meddai, 'dwi ar fin perfformio'r stỳnt orau un.'

Fe aeth ei lais yn dawel iawn.

Dechreuodd ddisgrifio stỳnt olaf y ffilm – un o'r campau mwyaf peryglus a gafodd eu perfformio erioed.

'Fe fydda i'n gyrru car ar hyd cledrau'r rheilffordd, fe fydd y car yn mynd yn sownd yn y cledrau . . . bydd y trên cyflym yn rhuo rownd y tro . . . ac wedyn, ar yr eiliad *olaf un*, fe fydda i'n llamu mas o'r ffordd.'

Gyda'r geiriau yna fe blymiodd Stiwpendo Mawr ar y soffa nes gwneud i'r gath sgathru o'r golwg.



Fe rygnodd Stiwpendo Fach ei dannedd gan deimlo'n rhwystredig. Rydw *i* eisiau gwneud stỳnt wych, meddyliodd wrthi'i hun.

# Pennod 6



Trannoeth, roedd Stiwpendo Fach yn fwy penderfynol nag erioed. Edrychodd ar y nant oedd yn llifo ar draws y cae, ac yna fe drodd at Eurwen Ryfeddol.

'Rydyn ni'n mynd i neidio dros honna!' meddai.

Ond doedd gan Eurwen Ryfeddol ddim diddordeb o gwbl yn y nant. Yr unig ddiddordeb oedd gan Eurwen Ryfeddol oedd . . . y pice ar y maen yn llaw Stiwpendo Fach.

Yn sydyn, fe gafodd Stiwpendo Fach syniad.

Os bydda i'n taflu'r pice dros y nant, meddyliodd, bydd *raid* i Eurwen Ryfeddol neidio drosti hi!

Fe daflodd Stiwpendo Fach y pice â'i holl nerth. Fe lanion nhw'n berffaith yr ochr arall i'r nant. Gwyliodd Eurwen Ryfeddol hyn a dechreuodd godi chwant am y pice.

'Dere, Eurwen!' gwaeddodd Stiwpendo Fach.





Fe ddechreuodd Eurwen Ryfeddol gerdded tuag at y nant. 'Ie, dyna ti!' gwaeddodd Stiwpendo Fach. 'Mae'n rhaid i ni neidio dros y nant!'

Ond doedd Eurwen Ryfeddol ddim yn bwriadu neidio dros y nant. Daliodd Eurwen Ryfeddol i gerdded, reit lawr at y lan ac i mewn i'r dŵr rhewllyd. Erbyn iddyn nhw gyrraedd yr ochr draw, roedd Stiwpendo Fach yn wlyb diferu.






Roedd Stiwpendo Fach yn grac iawn. Fe ysgydwodd ei dwrn ar Eurwen Ryfeddol. 'Yr . . .' gwaeddodd, 'yr . . . yr . . . *anifail twp!*'

Ond y foment y dywedodd y geiriau, roedd Stiwpendo Fach yn difaru. Doedd Eurwen Ryfeddol ddim yn dwp. Roedd hi'n hen, dyna i gyd. Roedd hi'n flinedig. A beth bynnag, nid ceffyl gwneud campau oedd hi.

'O, ti'n hen geffyl hyfryd mewn gwirionedd,' meddai Stiwpendo Fach, gan rwbio'i thrwyn a'i dychmygu hi'n ennill rasys pwysig flynyddoedd yn ôl.

O hyn ymlaen, fe fydda *i'n* cadw at fy meic modur, meddyliodd Stiwpendo Fach.


Ond roedd hi'n teimlo'n drist iawn oherwydd dyma'r tro cyntaf erioed iddi hi fethu.

Gyda chalon drom, fe ffarweliodd Stiwpendo Fach ag Eurwen Ryfeddol ac aeth yn ôl at y gât.



Roedd ei beic modur wedi'i barcio yn yr heol gefn fel arfer. O leiaf, fe allai hi neidio dros y nant ar hwn.


RRRRRRRRRRRRR! I ffwrdd â Stiwpendo Fach ar draws y cae, yn bwmpo a bowndio, a'i llygaid wedi'u hoelio ar y nant o'i blaen.



Yn sydyn, pan oedd hi hanner ffordd ar draws y cae, fe fflachiodd rhywbeth gwyn heibio iddi.

Eurwen Ryfeddol!

Doedd Stiwpendo Fach erioed wedi gweld unrhyw beth yn symud mor gyflym.



Gwasgodd Stiwpendo Fach ar ei brêciau a sgrechiodd y rheiny wrth iddi sefyll yn stond. Fe gododd Eurwen Ryfeddol ar ei choesau ôl a gweryru'n uchel, uchel.

'*Dyna* beth oedd ei angen arnat ti!' gwaeddodd Stiwpendo Fach. 'Rhywbeth i rasio yn ei erbyn!'


Neidiodd Stiwpendo Fach ar gefn Eurwen Ryfeddol. Roedd y ceffyl yn llawn bywyd ac ar dân eisiau rhedeg.

'Ar eu holau nhw!' gwaeddodd Stiwpendo Fach gan bwyntio at y ceir ar yr heol. I ffwrdd ag Eurwen Ryfeddol fel ergyd o wn. Ar un llam fe neidiodd dros y ffens, yna fe garlamodd i lawr yr heol fel seren wib.



Fe ddangosa i i Stiwpendo Mawr! meddyliodd Stiwpendo Fach.

Rasiodd Stiwpendo ac Eurwen ymlaen, yn syth drwy'r dref, heibio i Stiwdio Ffatri Ffilm a lan i gopa'r bryn oedd yn codi uwchlaw'r rheilffordd.




I lawr yn y cwm roedd Stiwpendo Mawr yn paratoi ar gyfer ei stŷnt bwysig.

'Bwrwch iddi!' gwaeddodd Penri Penrhiwceibr ar bawb.

Fe refiodd Stiwpendo Mawr ei gar, bwrodd drwy ffenestr ffug, tasgodd rownd cornel ar ddwy olwyn a rasiodd am y rheilffordd.






Fe sgrechiodd y brêciau.





Fe chwalodd y barrau croesi yn rhacs.




'Ardderchog!' meddai Penri Penrhiwceibr.

Yn union fel y cafodd pethau eu trefnu, aeth car Stiwpendo Mawr yn sownd ar y trac. Yn union fel y cafodd pethau eu trefnu, fe wyliodd ac fe arhosodd Stiwpendo Mawr am y trên.

Dim ond un broblem oedd yn aros. Roedd e'n edrych i'r cyfeiriad anghywir.







'Dad!' gwaeddodd Stiwpendo Fach o gopa'r bryn. 'Dad! Rydych chi'n edrych i'r cyfeiriad anghywir!'

Ond chlywodd Stiwpendo Mawr ddim byd o gwbl. Yn y cyfamser, roedd y trên yn dod yn nes ac yn nes.




Tynnodd Stiwpendo Fach ar ffrwyn Eurwen Ryfeddol a'i sbarduno i wneud rhywbeth. 'Rasia'r trên yna!' gwaeddodd. Fe garlamon nhw i'r cwm ac ar ôl y trên.



Doedd Eurwen Ryfeddol erioed wedi bod mor wych. Roedd ei charnau'n taranu a'i ffroenau'n boeth.


Yn fuan roedden nhw wrth ochr y trên. Bob yn dipyn dechreuon nhw ennill tir. O'r diwedd dyma nhw'n cyrraedd pen blaen y trên.





Gyda llam anferthol, fe daflodd Stiwpendo Fach ei hun i mewn i gaban y gyrrwr, a chydag ymdrech fawr fe dynnodd yn galed ar y chwiban.

Fe drodd Stiwpendo Mawr. Edrychodd yn syn. Neidiodd mas o'i groen. Y foment nesa roedd y car yn chwilfriw, yn un pentwr o fetel.



Pan stopiodd y trên o'r diwedd, dringodd Stiwpendo Fach yn hamddenol o'r caban. Roedd pobl yn bloeddio a chymeradwyo.




'Ardderchog!' gwaeddodd Penri Penrhiwceibr. 'Mae'n rhaid i mi gael yr olygfa yna yn fy ffilm!'

Fe wenodd Stiwpendo Fach wên fawr o foddhad. 'Iawn, Dad?'



Allai Stiwpendo Mawr ddim dweud na. Wedi'r cyfan, roedd Stiwpendo Fach newydd achub ei fywyd . . . eto!

Yn fuan iawn, roedd posteri i'w gweld ym mhobman:








Yn wir, roedd hi wedi bod
yn flwyddyn wych i
Stiwpendo Fach.

8 Ar Wib



Y Stiwpendos yw'r ddeuawd styntiau enwocaf yn y byd i gyd. Nawr, mae Stiwpendo Mawr wedi arwyddo cytundeb i berfformio styntiau anhygoel yn ffilm mwyaf ysgubol y flwyddyn - ac mae ei ferch, Stiwpendo Fach, yn benderfynol ei bod hithau'n mynd i fod yn rhan o'r cyffro. Beth fydd yn rhaid iddi ei wneud, tybed?



Llun y clawr: Martin Chatterton

Gwasg Gomer
Llandysul, Ceredigion SA44 4JL
www.gomer.co.uk

£3.99

ISBN 1-84323-474-2

9 781843 234746